**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg HYDREF 2009**

## CYNLLUN GWELLA DRAFFT 2009-10 a CHYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN LLEIHAU RISG 2010-11

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno Cynllun Gwella draft Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2009-10, sy'n ymgorffori cynllun gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg 2010-11, i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi erbyn Hydref 31ain 2009.

## Cyflwyniad

2 Mae canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub yng Nghymru gyhoeddi cynllun gwella am y flwyddyn gyfredol a cynllun lleihau risg / cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a hynny bob blwyddyn erbyn Hydref 31ain.

3 Mae'r canllawiau cyhoeddiedig yn cynnwys disgwyliad y bydd cynlluniau gwella yn cynnwys:

- crynodeb o amcanion strategol yr Awdurdod
- sylwebaeth ar berfformiad yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol, gan dynnu sylw at y cynnydd mewn perthynas ag amcanion allweddol, ac i ba raddau yr aethpwyd i'r afael â'r risgiau allweddol
- gwybodaeth am berfformiad yn y flwyddyn flaenorol, yn cynnwys data a thargedau dangosyddion strategol cenedlaethol (os ydynt yn berthnasol) a data dangosyddion eraill sy'n dangos y cynnydd tuag at amcanion allweddol yr awdurdod a/neu liniaru risgiau allweddol
- crynodeb o'r materion allweddol ar gyfer gwella

- manylion ynglŷn â lle i gael rhagor o wybodaeth

## Gwybodaeth

4 Mae'r cyhoeddiad drafft sydd ynghlwm yn ateb y gofynion statudol mewn perthynas â'r Cynllun Gwella eleni. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth derfynol yr Awdurdod cyn ei gyhoeddi.

5 Yn wahanol i'r blynyddoedd a fu, parhad yw cynllun gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2010-11 o weithredoedd 2009-10. Ymgynghorwyd ynglŷn â'r rhain yn ystod haf 2008. Bydd yr ymgynghoriad yn ystod haf 2009 yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Lleihau Risg nesaf yr ymgynghorir yn ei gylch yn ystod haf 2010.

6 Yn unol â'r canllawiau, bydd crynodeb o'r cynllun gwella ar gyfer y cyhoedd yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd Tachwedd, a bydd yn cael ei ddosbarthu trwy ogledd Cymru wedi hynny.

## Argymhellion

7 Bod yr Aelodau'n:

(i) nodi'r gofyniad i gyhoeddi Cynllun Gwella ar gyfer 2009-10 a Chynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2010-11 cyn Hydref 31ain 2009; a
(ii) cymeradwyo'r Cynllun Gwella drafft 2009-10, sy'n ymgorffori Cynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg 2010-11, i'w gyhoeddi erbyn Hydref 31ain 2009.